2024 Engagement event - what you said

In May and June 2024 TCC engaged with residents to hear about your future hopes for Trefriw and Llanrhychwyn! We listened at a drop-in session in the Village Hall, at our monthly community coffee mornings, and published paper and online surveys. Many thanks to those who participated - the key themes are below and, where we can, we will work with partners to build these into our TCC Action Plan for 2025/26!

1. Protecting our green spaces and open water is important to you including maintaining/improving footpaths and tackling litter.

2. There is appetite for more social activities in the village and for TCC scoping options to make the hall more energy efficient and comfortable in the winter months. Please get in touch if you would like to hire the hall - it is up to residents to help organise and support the activities you want!

3. Our public toilets are seen an essential amenity to be retained, including through user-pay options if necessary.

4. There are concerns about inconsiderate parking e.g. on Top Road and the B5106 and about the blind corner heading north on the main road before the Prince's Arms.

2024 Digwyddiad ymgysylltu – eich barn chi

Ym mis Mai a Mehefin 2024 bu i GCT ymgysylltu gyda thrigolion i glywed am eich dyheadau i'r dyfodol ar gyfer Trefriw a Llanrhychwyn! Bu inni wrando mewn sesiwn galw heibio yn y Neuadd Bentref, yn ein boreau coffi cymunedol misol, a chyhoeddi holiaduron ar bapur ac ar-lein. Diolch yn fawr iawn i'r rheiny gymerodd ran – mae'r prif themâu isod a, lle gallwn ni, byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gynnwys y rhain yn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025/26!

1. Mae gwarchod ein lleoedd gwyrdd a dŵr agored yn bwysig i chi gan gynnwys cynnal a chadw/gwella llwybrau troed a mynd i'r afael â sbwriel.

2. Rydych chi'n awyddus i gael mwy o weithgareddau cymdeithasol yn y pentref ac i wneud y neuadd yn fwy ynni-effeithlon a chyfforddus ym misoedd y gaeaf. Cysylltwch gyda ni os hoffech chi hurio'r neuadd – mae fyny i'r trigolion helpu i drefnu a chefnogi'r gweithgareddau rydych chi eisiau!

3. Mae ein toiledau cyhoeddus yn gyfleuster hanfodol i'w gadw, gan gynnwys drwy ddull talu am eu defnyddio os bydd angen.

4. Mae pryderon am barcio difeddwl e.e. ar Ffordd Top a'r B5106 ac wrth y gornel ddall tua'r gogledd ar y brif ffordd cyn y Prince's Arms.